



CYNGOR DINAS BANGOR

POLISI'R WASG A'R CYFRYNGAU

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae cyfathrebu cyson ac effeithiol ar ran Cyngor Dinas Bangor (o hyn ymlaen, "y Cyngor") gyda'r gymuned leol yn hanfodol i sicrhau fod y Cyngor yn cael ei ddal i gyfrif am ei bolisiau a'i weithredoedd; ac am hyrwyddo ymwybyddiaeth y gymuned leol o swyddogaethau'r Cyngor a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu.
- 1.2 Mae'n rhaid i bob cyfathrebiad gan y Cyngor gael ei reoli'n ofalus i sicrhau ei fod yn gywir, effeithiol, cyson ac amserol. Mae methu â dilyn yr egwyddorion hyn yn risg o gyfathrebu anghywir â'r cyhoedd, gyda'r potensial i arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol a niwed i enw da'r Cyngor.
- 1.3 Mae'r Wasg a'r Cyfryngau (h.y. teledu, radio, cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwrwyd) yn sianeli cyfathrebu allweddol ac mae'n arbennig o bwysig fod y sianeli yma yn cael eu rheoli mewn modd gofalus a chadarnhaol. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal deialog adeiladol a pharhaus gyda'r Wasg a'r Cyfryngau, yn annog cyswllt priodol a mynediad at Aelodau a Swyddogion, yn darparu gwybodaeth gefndir un ai yn rhagweithiol neu pan ofynnir amdano, ac yn hyrwyddo presenoldeb yn ei gyfarfodydd ac adrodd amdanynt. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ymarfer llywodraethu effeithiol mewn cyswllt â'r Wasg a'r Cyfryngau. Pwrpas y polisi hwn yw gosod i lawr y llywodraethu hwnnw.
- 1.4 Mae'r llywodraethu yn cwmpasu sut mae cyfathrebu â'r Wasg a'r Cyfryngau yn cael ei reoleiddio a'i reoli gan y Cyngor. Mae'r polisi yn diffinio swyddogaethau, cyfrifoldebau ac awdurdod yr Aelodau a'r swyddogion a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn. Nid yw'n ceisio darparu canllawiau ar sut a phryd mae'r Cyngor, neu Aelodau a Swyddogion unigol, yn ymgysylltu â'r Wasg a'r Cyfryngau nac yn ceisio darparu canllawiau ar arddull neu gynnwys unrhyw gyfathrebiad.

2.0 CEFNDIR CYFREITHIOL

- 2.1 Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu cyfathrebu ac yn benodol cyhoeddusrwydd gan awdurdodau lleol, sy'n cynnwys Cyngorau Cymuned a Thref/Dinas, wedi'i gosod yn Neddfau Llywodraeth Leol 1986 ac 1988 fel ag y'u diwygiwyd gan ddeddfwriaeth ddilynol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd dalu sylw i **God Ymarfer a Argymhellir ar Gyhoeddusrwydd Awdurdod Lleol** Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i bob cyfathrebiad gan Aelodau a Swyddogion gydymffurfio â'u cyfrifoldebau yn y Cod Ymddygiad i Aelodau, rheolau sefydlog Cyngor y Ddinas a'r gwahanol ddeddfau, Rheoliadau a gorchmynion sy'n llywodraethu eu gweithredoedd mewn bywyd cyhoeddus.

3.0 RHEOLAU SYLFAENOL

- 3.1 Mae'r canlynol yn cynrychioli rheolau sylfaenol sydd yn rhaid i Aelodau a Swyddogion Cyngor Dinas Bangor eu dilyn o safbwynt cysylltu â'r Wasg a'r Cyfryngau:
- 3.2 Dylai pob datganiad, wedi'u hysgrifennu neu ar lafar, i'r Wasg neu'r Cyfryngau sy'n honni eu bod yn cynrychioli safbwyntiau'r cyngor gael eu cymeradwyo o flaen llaw gan Clerc y Dref, gyda Chlerc y Dref wedi ymgynghori â'r Maer yn flaenorol neu, yn ei absenoldeb ef/hi, y Dirprwy Faer. Mewn sefyllfaoedd brys, lle nad yw Clerc y Dref ar gael, gall y Maer neu, yn ei absenoldeb ef/hi, y Dirprwy Faer gymeradwyo'r fath ddatganiadau..
- 3.3 Ni ddylai Aelodau na Swyddogion y Cyngor wneud datganiadau, ysgrifenedig neu lafar, i'r Wasg neu'r Cyfryngau sy'n honni eu bod yn cynrychioli safbwyntiau'r Cyngor oni bai fod y safbwyntiau hynny wedi cael eu trafod a'u cytuno mewn cyfarfod o'r Cyngor neu mewn pwyllgor o'r Cyngor gydag awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau ar y materion o dan sylw.
- 3.4 Mae'n rhaid i unrhyw Aelod o'r Cyngor sy'n gwneud datganiad, ysgrifenedig neu lafar, i'r Wasg neu'r Cyfryngau sy'n cynrychioli safbwynt personol ac nad yw'n honni ei fod yn cynrychioli safbwynt y Cyngor gymryd camau rhesymol i sicrhau fod natur bersonol y datganiad yn glir ac na allai gael ei ddehongli fel datganiad sy'n cynrychioli safbwynt y Cyngor. Yn arbennig, ni all Aelod o'r Cyngor ddefnyddio'r teitl "Cynghorydd" wrth wneud datganiadau sy'n cynrychioli safbwynt personol.
- 3.5 Yn gyffredinol, mae gan bob Aelod a Swyddog o'r Cyngor gyfrifoldeb i roi sylw dyladwy icynnwys ac i ddehongliad rhesymol unrhyw ddatganiad, personol neu fel arall, a wnaed i'r Wasg neu'r Cyfryngau; ac i sicrhau nad yw datganiadau o'r fath yn peryglu enw da'r cyngor nac yn dwyn anfri ar y cyngor.
- 3.6 Ni all unrhyw Aelod na Swyddog o'r Cyngor ddatgelu unrhyw ddogfen na mater i'r Wasg neu'r Cyfryngau a gyhoeddwyd yn gyfrinachol neu a drafodwyd yn gyfrinachol gan y Cyngor oni bai ei fod wedi cael awdurdod i wneud hynny drwy bleidlais y Cyngor a gan Clerc y Dref.